

PWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 15 Mehefin, 2021.

Mae'r Agenda [ar gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod [ar gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cyngorydd J.W. Thomas (Cadeirydd); Y Cyngorydd Mrs. P. Drake (Is-Gadeirydd); Cyngorwyr Ms. J. Aviet, Mrs. J.E. Charles, R. Crowley, O. Griffiths, K.F. McCaffer, Mrs. J.M. Norman, Mrs. R. Nugent-Finn, S.T. Wiliam a Mrs. M.R. Wilkinson.

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gyngorwyr V.P. Driscoll a Mrs. A. Moore.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth, 2021 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. ADOLYGIAD O'R DATGANIAD O'R EGWYDDORION GAMBLO DEDDF 2005 2022-2025 (CAT) –

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo'r dull o gyhoeddi Datganiad Egwyddorion Bro Morgannwg ar gyfer ei swyddogaethau gamblo am y cyfnod 2022-2025.

Rhesymau dros y penderfyniad

- (1) Sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd statudol fel awdurdod trwyddedu.
- (2) Rhaid i'r awdurdod trwyddedu, wrth gyflawni ei swyddogaethau, roi sylw i'r amcanion trwyddedu:
 - Atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell o drosedd neu anhrefn, bod yn gysylltiedig â throedd neu anhrefn neu gael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd;
 - Sicrhau bod gamblo'n cael ei gynnal mewn ffordd deg ac agored;
 - Amddiffyn plant a phobl agored i niwed eraill rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio gan gamblo.

EITEM AGENDA 5. DEDDF TRWYDDEDU 2003: ADOLYGIAD O'R DATGANIAD O'R POLISI TRWYDDEDU AR GYFER 2021-2026 (CAT) –

PENDERFYNWYD –

- (1) Cymeradwyo'r diwygiadau sydd i'w gwneud i'r Datganiad Drafft o Bolisi Trwyddedu fel a ganlyn:

Mewnosod paragraff yn Adran 17 fel a ganlyn i gydnabod System Golau Traffig Heddlu De Cymru fel dull ar gyfer cyflwyno sylwadau neu adolygiadau:

"Enghraifft o system rhybuddio cynnar gydnabyddedig yw'r System Golau Traffig a weithredir gan Heddlu De Cymru. Bydd unrhyw wybodaeth a gyflenwir i'r awdurdod trwyddedu fel rhan o sylwadau neu broses adolygu yn cael ei hystyried yng ngoleuni'r egwyddorion eang a nodir ym Mholisi Gorfodi'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir o Gymesur, Atebol, Cyson, Tryloyw a Thargedu. Os defnyddir offeryn gorfodi o'r fath, bydd yr awdurdod trwyddedu yn disgwyl derbyn gwybodaeth ar sut y dyrannwyd y system bwyntiau, y rhyngweithio â'r trwyddedai, pa ymyriadau a gynhaliwyd eisoes, a'r risg i'r amcanion trwyddedu sy'n sail i'r sylwadau / adolygiad a gyflwynwyd".

Yn lle'r gair "dylai" gan "rhaid" yn Adran 14 yn y paragraff a ganlyn:

"Rhaid i weithredwyr mangreoedd o'r math hwn ystyried mesurau i atal trosedd ac anhrefn ar, neu sy'n deillio o'u mangre."

- (2) Cyfeirir y Datganiad Polisi Trwyddedu i'r Cabinet am eu sylwadau ar 5 Gorffennaf a'i gyfeirio at y Cyngor i'w gymeradwyo ar 26 Gorffennaf, 2021.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Sicrhau bod y Cyngor, fel awdurdod trwyddedu, yn cyflawni ei ddyletswydd o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

- (2) Rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu, wrth gyflawni ei swyddogaethau, roi sylw i'r pedwar amcan trwyddedu:

Atal trosedd ac anhrefn;
Diogelwch y cyhoedd;
Atal niwsans cyhoeddus;
Amddiffyn plant rhag niwed.